



Mae Trefengan bellach wedi ei ddyrchwyl a phlasdy wedi ei godi yn ei le.  
Trefengan, Môn gan Wil Evans, Llangefni.

## MAE'R LLWCH FOLCANIG WEDI PEIDIO – OND BETH YW'R EFFAITH HIRDY MOR AR GYMRU?

Efallai fod y llosgfynydd yng Ngwlad yr Iâ wedi rhoi'r gorau i ollwng llwch erbyn hyn, ond mae'r Cyngor Cefn Gwlad wrthi'n brysur yn ceisio darganfod beth allai'r effaith amgylcheddol fod ar y wlad yn yr hirdymor. Mae gan wyddonwyr y Cyngor ran hollbwysig i'w chwarae yn y gwaith o ymchwilio i effeithiau cemegol y llwch ar orsaf fonitro'r Wyddfa, er mwyn gweld beth yn union yw'r effaith ar amgylchedd Cymru.

Trwy gasglu samplau o weiriau a dadansoddi'r glaw bob wythnos, mi fydd yr ymchwilydd yn gallu darganfod beth yw cyfansoddiad cemegol y llwch folcanig ei hun. Ymhen amser, mi ddylai hyn ein galluogi i ddeall y llwch yn well a darganfod pa mor sydyn y caiff ei ymgorffori mewn pridd, llystyfiant a dŵr. Yn ôl Dylan Lloyd, Swyddog Goruchwylio'r Amgylchedd:

"Rydyn ni'n dadansoddi'r samplau i weld faint o fflworid sydd ynddyn nhw. Mae llosgfynyddoedd yn gollwng nwy fflworin, yn ogystal â chemegau eraill, a phan fydd y lefelau'n uchel mae modd i dda byw ddi-dded o fflworosis. Yn y gorffennol, y gred yw bod ffrwydradau folcanig mawr wedi lladd nifer helaeth o dda byw yng Ngwlad yr Iâ, yn rhannol oherwydd y lefelau fflworid. Defra sydd wedi gofyn inni wneud y gwaith yma, ac mi allai roi darlun cliriach inni o'r effaith ar Gymru pe bai hanes yn cael ei ailadrodd."

Mae'r gwaith monitro yma'n rhan o brosiect ymchwil ehangach a gaiff ei gydlynu gan y Rhwydwaith Newid Amgylcheddol ar 57 o safleoedd ar hyd a lled y Deyrnas Unedig. Mae gan y Rhwydwaith safleoedd ym mhob cwr o'r wlad, yn ogystal â phymtheg mlynedd o ddata ar gyfer

bron pob safle tirol; felly, y gobaith yw y bydd modd canfod 'olion bysedd' y llosgfynydd yn y Deyrnas Unedig.

Yn ôl David Parker, Cyfarwyddwr Gwyddoniaeth y Cyngor Cefn Gwlad: "Rydyn ni wedi mynd i'r afael â gwaith monitro ers sawl blwyddyn, ac felly mae modd inni ddarganfod newidiadau yn yr amgylchedd yn gyflym dros ben. Yna, mae modd defnyddio'r wybodaeth i gynghori'r Llywodraeth ynglŷn ag effaith hirdymor y llwch folcanig – ar drigolion a bywyd gwylt Cymru fel ei gilydd."

Datganiad i'r wasg gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru

### Llosgfynyddoedd mawr eraill:

**Kamchatka, Rwsia 1739:** *Great volcanic eruptions on the remote Kamchatka peninsula may have been sufficient to upset the meteorological equilibrium, of the northern hemisphere. No definitive scientific explanation for the extraordinary climatic shock that hit Europe between December 1739 and September 1741 has as yet been advanced*

David Dickson 1997 Arctic Ireland White Row press

**Yr Antartic 1809:** ffrwydriad llosgfynydd anhysbys

Antarctic Science 14 (1), 55-60 (2002)

**Tambora, Indonesia, 10 Ebrill 1815:** *Cet archipel [Sumbawa] a connu le 10 avril 1815 la plus importante explosion volcanique des dix mille dernières années. On estime que l'éruption du Tambora provoqua la mort de pres de 100 000 personnes dans l'île de Sumbawa. [gweler 1816 L'année sans été] Le Figaro 1/1/2006. Oherwydd llosgfynydd Tambora Indonesia, bu i dymheredd y byd ostwng.*

**Krakatoa, 1884;** ffrwydriad llosgfynydd Krakatoa  
**Pinatubo 1991;** ffrwydriad llosgfynydd Pinatubo

Zhang, M.J. et al, A Continuous 250 year record of Volcanic Activity fro Princess Elizabeth Land,

East Antarctica, Antarctic Science 14 (1), 55-60 (2002)

...ac mae yna lawer mwy

## Y Copor bach ar lygad-llo mawr



Twyni Gronant,  
Mehefin 3, 2010

Yn Rhifyn 19 gwahodddwyd darllenwyr i dynnu llun copor bach ar flodyn y gwanwyn i ddangos cenhedlaeth gyntaf y creadur hwn. Dyma ymateb Eifion Griffiths.

## Mwygl

Ansoddair yw mwygl sydd, yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru (GPC), yn golygu cynnes, claeaf neu lugoer. Yng nghyd-destun penodol y tywydd, golyga clòs, mwll, mwrn, trymaidd. Ffurf lafar ar mwygl yw mwygil, gyda llafariad ymwithiol. Daw'r enghreifftiau cynharaf o'r gair mwygl yn GPC o'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Fel sy'n gyffredin mewn barddoniaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol, mae'r enghreifftiau cynharaf yn tueddu i fod yn rhai trosiadol yn hytrach na llythrennol. Dyma enghraifft gan y Gogynfardd diweddar Dafydd y Coed (14g) mewn cerdd ddychan i Raeadr Gwy:

Rhaeadr oergri cadr ar grwcedau—bach,

Bychin geiniog werthau;

Rhugl ffugl ffagl, magl mwygl refrau,

Rheglwem i gwm uffem gau!

Rough, bold, cold Rhayadr, with tiny tresses,  
Piddling pennyworths,  
Blare, blow, blaze, soft arses' snare,  
Sewer to Hell's hollow coombe.

Joseph P. Clancy, *The Earliest Welsh Poetry*, t. 182]

Yn yr unfed ganrif ar bymtheg, canodd Huw Arwystl, bardd o Langurig, gerdd ddychan i'r gwybed am ei yrru o'r llwyni cyn i'w gariad ddod yno i gyfarfod ag ef: 'Mwygl gode o brysg magl goed bronn' (sachau llugoer o ganghennau coed dryslyd yr allt, GPC 2518). [*feeble sacks from the branches of the tangled trees of the hillside*]. Mewn cywydd a all berthyn i'r bardd o Forgannwg Ieuan Rudd (15g) defnyddir mwygl i ddyfalu'r niwl a'i rhywstrod rhag pasio mynydd Elfael:

Marchog rhyddiog ryw ddydd

Manaf annwyd mewn hafddydd,

Mwygl ei fodd, maglai fyddin,

Môr sych yn ymaros hin.

Cywyddau Iolo Goch ac Eraill

A very lazy knight one day,  
The thinnest cold on a summer's day,  
Tepid/feeble is its manner, it would  
entangle an army,  
A dry sea awaiting rain.

Mewn enghreifftiau diweddarach, yn enwedig ar lafar, ceir mwygl yn cyfeirio at y tywydd yn llythrennol, a hynny i olygu mwll, cynnes neu drymaidd. Clywid y ffurf ar lafar yng ngorllewin Meirionnydd (Cymru, lxii (1922), 72) ac yng Ngheredigion (Cymru, xxviii (1905), 242). Yn y gyfrol *Yn yr Ardd* (1947), dangosodd Tom Jones bod y gair hefyd yn nodweddiadol o iaith sir Fôn: Os digwydd y tywydd fod yn glos, neu fwygil, fel y dywed pobl sir Fôn, a llaith hefyd neu gawodog, fe gewch ysmotiau brown-ddu'n ymddangos ar y gwlydd. Ceir hefyd y ffurfiau mwyglaid, mwygllder, mwyglwym(n), mwyglhau. Ystyr mwyglen yw 'putain neu hwren (fach)' (GPC 2518. Yng Ngeiriadur Cymraeg-Lladin John Davies o Fallwyd (1621) ceir dan mwyglen 'tepidula' (h.y. merch fach dinboeth) neu 'meretricula' (h.y. putain fach). Mae'n debyg mai'r cysylltiad rhwng gwres a maswedd a roes inni'r ystyr hwn.

Cathryn A. Charnell-White a Barry J. Lewis  
Canolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru

## Tirlithriad....



...ar lethrau Bryn Mawr, y Migneint, tua SH80114478. Tynnais hwn ar 16 Rhagfyr 2009 ond rwy'n meddwl i'r tirlithriad ddigwydd beth amser ynghynt - tua hydref 2009 mae'n siwr. Mae o tua 25-30m o led ar ei letaf, a'r graith o leiaf 100m, gyda hafn newydd yn ffurfio yn ei chanol wrth i'r dŵr redeg i lawr y llwybr hawsaf. [Oes gennych chi gofnod neu lun o dirlithriad diweddar? Gol.]

## Shakespeare a'i frain...mwy

Yn y rhifyn diwethaf gofynnwyd am gynigion ar gyfieithu'r frawddeg hon gan Shakespeare:

*"Light thickens, and the crow*

*Makes wing to the rooky wood;*

*Good things of day begin to droop and drowse,*

*Whiles night's black agents to their preys do rouse."*

- William Shakespeare, *Macbeth*, 3.2

Dyma gyfieithiad JT Jones o'r frawddeg: "Mae'r goleuni'n tewychu, a'r fran yn ehedeg tua choed y brain. Mae pethau da'r dydd yn dechrau gogwyddo a thrymhau a gweision duon y nos yn bywiogi am ysglyfaeth".

Meddai Aled Jones Rhuthun: "Dyma gynnig i grogi:

'Mae'r dydd yn pylu, a'r frân


Yn hwylio tua choed y brain;

Gwiw bethau'r dydd yn llithro i gwsg,

A du ysbeilwyr nos yn ceisio'u prae.'

Ond mae'n siwr fod T.G.J. yn llawer gwell". Tybed? (Gol.)

**A mwy am frain coesgoch de Lloegr (Rhifyn 28):** dyma ysgrifennodd Gilbert White yn 1778: *Cornish choughs abound, and breed on Beechy Head, and on the cliffs of the Sussex coast* Dyma brawf i frain coesgoch ymledu llawer yn ehagach ar un adeg, gan gynnwys yr ardal yn nrama'r Brenin Llyr gan Shakespeare. Mae'r mosaic Rufeinig yma o Fila Rufeinig Brading hefyd yn dangos bod brain coesgoch yn byw yn ardal Ynys Wyth ddwy fil o



flynyddoedd yn ôl, tan yr 1880au meddai haneswyr lleol. (Diolch i Alan Phillips a'i lyfr *Cock and Bull Stories* am lôn gwerin Ynys Wyth). Ac yng Nghaersallwg (*Salisbury*) bu tafarn o'r enw The Chough Inn (The Blue Boar erbyn heddiw) sydd yn dyddio'n ôl i'r 19g. Oes mwy o dystiolaeth tybed?

## Gwlan Salamander

Near this place [Kemlyn in Anglesey, Cemlyn] is the famous Quarry of the stone Asbestos, a beautiful Marble in which is had the Linum Asbestinum, called here Salamander's Wool; being a Substance like Flax that will bear common Fire. It is mentioned by Pliny in his Natural History, and others; who say, the Antients made Cloth of this Fossil Flax, in which they burnt the Hearts of their deceased Princes, to preserve the Ashes.

Observations relating to the Improvements that might be made in the Harbours...(Lewis Morris)

Towyn Trewyn, Llugwy, Môn: "Salamanders Wool at Towyn Trewyn, a little beyond Llygwyl" [a oedd Llwyd wedi drysu ei leoliadau?

Archaeologia Cambrensis., Apr. 1909-July 1911  
Parochialia of North Wales (Edward Llwyd)

Mynachdy, Môn sh313925 *This disused, overgrown pit a short distance to the NW of Mynachdy Farmhouse on Carne Head is of regional geological importance because it was quarried for unusual and rare minerals which are no longer visible ... and its Importance In early writings is emphasised by the number of eminent scientists who referred to the 'marble'. These include Pliny writing about how the ancient people used asbestos for shrouds around the hearts of their princes to preserve the ashes from those of the wood pyre. The Mynachdy serpentine and asbestos acquired great fame when the first two curators of the Ashmolean Museum in Oxford, Robert Plot and then Edward Lhuys described the manufacture of an incombustible paper cloth from minerals found there.. Thomas Pennant (1770) visited the quarry and noted the silky and elegant white asbestos. Although the quarry has not been worked in the past two centuries, Greenly (1919) noted bundles of asbestos in the complex of serpentine, and dolerite. Today, no asbestos is visible. However, if the vegetation were removed there may be some small amounts remaining. Mynachdy has been considered to be of great importance for more than a thousand years and despite the lack of visible evidence today its rarity and former glory deserve to be recognised as an important historical RIGS.*

RIGS\* Statement of Interest (Cyngor Cefn Gwlad) Dim fersiwn Cymraeg ar gael  
*At Mynachdy is a serpentine where..bundles of asbestos, . . . several inches long, are still to be found in it. The [basic] intrusion of Mynachdy is exposed on the coast, at a pit north-east of the house, and by the stream that comes out of the marsh ... The pit was worked for asbestos, which may still be seen there in blocks in the farmyard walls. ... There must be a small serpentine at Bodrwyn, ... for many years ago some asbestos was found there which (Mr. J.J. Ffoulkes, of that farm, informs me) came from about 200 yards below the house....[Asbestos] has been obtained in small quantity from the serpentines of Llanfechell and Mynachdy. Lhuys, in 1684, describes a sort of paper made of it; and it is said that an incombustible pocket-handkerchief was woven from it and sent as a present to George the Third.*

Memoirs of the Geological Survey: The Geology of Anglesey [cyfrol I a II] gan Edward Greenly a gyhoeddwyd yn 1919.

Ac meddai'r daearegydd Dyfed Elis Gruffydd: "Rhestrir asbestos hefyd ymhlith y mwynau a geid ym Mynydd Parys" ac meddai Steve Roddick: "A few years ago I bought a facsimile copy of an old book at Oriol Ynys Môn. It has been reprinted by Magma and is called A History of Anglesey. On page 53 there is a chapter about the harbour of Cemlyn. Part of it reads [a chofiwch y sillafu hynafol]:-

'Near this place, in the parish of Llanfairynghornwy, is a remarkable quarry of the lanuginous mineral called Asbestos, from a supposition of it having the property of refitting fire, but, upon several trials made, it was found to diminish materially at each time. We are told by Pliny, that the ancients wove it into a cloth, which, whenever stained, or had any way become dirty, was put into fire, and when taken out was rendered more clean than ever.' "

\*RIGS = Regionally Important Geological Site.

## Pam "salamander?"



Datblygodd nifer o straeon am y salamadr, lawer yn gysylltiedig â thân. Daeth y cysylltiad mae'n debyg o arfer y creadur i ymochel mewn coed pydredig, ac wrth i bobl losgi'r coed byddai'r salamdrau yn ceisio dianc gan esgor ar gred eu bod yn tyfu o fflamau.

Wikipedia

## Syched 1984

Ganol mis Mehefin ac mae syched 2010 gyda ni o hyd: Ond beth am syched gwanwyn 1984. Dyma rai o sylwadau o'r cyfnod yn Nyddiaur Llên Natur:

Ardudwy Mai 1984: *DROUGHT NOTES: Prolific year for elm seeding. Prolific year for dandelions on lawns & in fields. Prolific year for sessile oak flowers. Good year for lackey moths, Mochras, Prolific blackthorn and crab apple blossom. Bracken growth poor so far. May blossom not out by 18 May. farmers still feeding stock by mid May (silage exhausted Sir Fôn - on to hay)*

Ardudwy 13 Mai 1984: *DROUGHT NOTE: No proper rain has fallen since January 1984 & severe drought effects are now becoming apparent: 1. scorching of grasses along verges, 2. northern side of Moelfre shows its bilberry cover very clearly compared with the south side when viewed from Dyffryn, 3. green hairstreaks more numerous than I have known them, 4. dune annuals Sax tridact & corn salad not well developed,*

Ardudwy 15 Mai 1984: *First rain for months.*

Dyffryn Ardudwy 21 Mai 1984: *DROUGHT NOTE Polypody dead/dried on walls at Bennar*

Llyfr Maes DB

Pa nodweddon gafodd eu hailadrodd eleni yn eich ardal chi?

## Cae Hob..eto

Clywais ddweud nad mochyn yw ystyr "hob" yn Cae Hob ger Bethel ond enw person, ffurf ar Robert. Yn rhifyn cyntaf Bwletin Llên Natur cyfeiriais (gyda llun) at yr enw - a'r dehongliad efallai'n anghywir! Hoffwn ei gywiro os oes angen. (DB). Ateb gan Glenda Carr: Nid yw'n amhosibl o gwbl mai mochyn sydd yn enw Cae Hob. Wrth son am wahanol enwau anwes megis Dican a locws ac enwau tebyg, mae Hob yn gallu bod yn ffurf anwes ar Robert. Credai Melville Richards mai ffurf anwes arall ar Robert, sef Dob, sydd yn enw Dob ger Tregarth. Ond ni fyddwn yn wftio at neb a ddywedai mai Cae Mochyn yw ystyr Cae Hob - mae'r mochyn yr un mor dderbyniol a Robert. Yr unig reswm dros amau mai enw dyn sydd yma, yw y byddai rhywun wedi disgwyl cael Cae'r Hob (fel Cae'r mochyn a welir mor aml) wrth gyfeirio at anifail penodol ar ôl yr elfen 'cae'.

## Mwy o gofnodion am Goleuni'r Gogledd

gweler Bwletin 4 a 23

**Durham 6 Mawrth 1716** "A most beautiful glory appeared over ye hearse [yn cario larll Derwennydd a ddiennyddwyd am ei ran yn ngwrthryfel y Jacobites] wich all saw, sending forth resplendent streamsof all sorts of colours to ye east and west, the finest I ever saw in my life. It hung like a delicate rich curtain & continued a quarter of an hour over ye hearse. There was a great light seen at night in several places & people flockt all night from Durham to see the corpse"...Lord Derwent waters Lights - Aurora 1716 (...as described by an old family servant of Derwentwater)

Simons 2008: Since Records Began

### Cymru? 1749

1749: *aurora borealis* (BWB, no. 3)

Bibliography of Welsh Ballads (yn Charnell-White 2009)

**Cymru 1769** 1769/1770: *aurora borealis* (BWB, no. 831) (BWB, no. 221 undated reference)

Bibliography of Welsh Ballads (yn Charnell-White 2009)

*It is unclear whether the ballads which cite the aurora borealis and comets relate to Welsh experience and sightings in Wales, or whether they are adapted from English sources. The situation is ambiguous, made all the more complex by the loyalist sentiments to Church and State expressed in the final verses of the majority of ballads and summer carols alike*

**Prydain? 24-25 Hydref 1769:** "... the great Northern lights as fire in the elements, to the great surprise of the vulgar. The vulgar from the Northern lights the night past do prognosticate great alternations [de Cymru?]." Weather notes

**Aberhonddu? 1774:** [Dyddiad yr AB yn anhysbys ond rhywbryd ychydig cyn 1774?] *The aurorae of the polar skies are associated with the climate of the Northern and Southern poles: the Aurora Borealis is the more famous, because the wonderful displays of dancing light occur over more densely populated areas than the Aurora Australis. The dominant colour is green, but red and white hues are not uncommon either. The northern lights are only rarely visible in Britain and so it is hardly surprising then that this awesome spectacle acquired apocalyptic overtones when it was visible in Wales during the eighteenth century. William Williams of Pantycelyn, the Methodist hymnist and apologist, published a prose treatise in 1774 on this very phenomenon: Aurora Borealis: neu, Y Goleuni yn y Gogledd (Aberhonddu, 1774). Williams was a man of the Enlightenment and so he also presents the scientific arguments of the day, only to dismiss them in favour of an apocalyptic interpretation. His theological interpretation is detailed and precise; the lights are a sure sign of the success of the Gospel in the Last Days.*

Charnell-White, C. (heb ei gyhoeddi) Literary Responses to extreme Weather in eighteenth Wales

**Esgerdawe, Caerfyrddin:** 25 Ion 1938; *ev. Rev Jones & B Davies. A wonderful night. "Aurora Boreales" [sic] - Northern Lights. Patches of crimson with shafts of light across.* Noson olau heb leuad.

Dyddiadur Defi Lango (Gol. Goronwy Evans)

## Gwell mêl na finag

"Peidiwch ag ateb llythyr cas mewn gwylltineb" meddai Ann Corkett:...fel maen nhw'n dweud, mi ddaliwch fwy o bryfed â mêl nag â finegar."

## Gwlithen Fôr, newydd i Gymru

Ynys Welltlog, Y Fenai.  
18/9/09



Darganfuwyd morwlithen dorchwen, *Aeolidiella alderi*, (uchod), rhywogaeth o wllithen fôr sy'n newydd i Gymru, ar lan Ynys Welltlog yn y Fenai ym mis Medi 2009. Mae'n bwyta anemonïau môr. Gan fod ei chorff yn dryloyw, caiff ei lliw gynnwys ei pherfedd, sydd yn estyn i mewn i'r llabedau ar ei chefn. Pan fydd yn llyncu pigiadau'r anemonïau, teithiant drwy'r perfedd i flaenau gwyn y llabedau. Yna, pan ymosodith ysglyfaethwr, gollynga'r pigiadau i amddiffyn ei hunan. Hefyd, weithiau, fe saethir y pigiadau i mewn i anemoni arall cyn iddi ei bwyta. Ni theimlir croen dynol y pigiadau anemonïau Prydeinig, ond mae'r geg yn deimladwy. Unwaith, cododd fy nghyrywogaeth mwy o faint o'r enw Morwlithen lwyd, *Aeolidia papillosa*, (isod). Gollyngodd y wllithen yn gyflym pan deimlodd y pigiadau yn ei geg. Y gwahaniaethau rhwng y ddwy rhywogaeth ydy:

### Morwlithen dorchwen, *Aeolidiella alderi*:

Hyd at 37mm. Llabedau brown tywyll, gwyrdd-frown, cochaid, neu binc, wedi eu trefnu mewn rhesi, gyda thorch o labedau byr gwynnaidd ar y blaen. Rhinophorau oren gyda blaenau gwyn neu felyn. ("Rhinophorau" ydy dau deimlydd ar gopa'r pen sydd yn synhwyro oglau.) Rhywogaeth brin yng Nghymru.

### Morwlithen lwyd, *Aeolidia papillosa*:



Hyd at 120mm. Llabedau hirach, llwyd, llwyd-binc, brown, neu biws-frown, mwy niferus, heb eu trefn mewn rhesi. Rhinophorau'n dywyllach na'r corff. "Y" gwyn o flaen y rhinophorau fel arfer. Rhywogaeth gyffredin yng Nghymru.

Erthygl, lluniau a chofnodion gan Iwan Smith (Gyda diolch i Bernard Picton and Julia Nunn (National Museums of Northern Ireland) am adnabyddiaeth o'r llun.

Meddai arbenigwr môrol Llên Natur, Sion Roberts: "Difyr... 'rioed wedi gweld y wllithen hon. Fe gafodd y plant a minau hyd i lawer o *A. papillosa* o dan y piar yn Biwmaris yn ddiweddar.. fe ddois i a un adre i roi yn yr acwariwm. Dechra bwyta'r anemonïau gleiniog (*A. equina*) yn y tanc wnaeth hi, a gadael llonydd i'r rhywogaethau eraill... mae'r anemonïau â un amddiffyniad... gollwng eu gafael ar y graig a gobeithio cael eu cario ymaith' da'r lli. Mae'r wllithen hon (*alderi*) wedi ei chofnodi yn Ne Lloegr... efallai am ei bod yn fach ac yn anghyffredin nad yw wedi ei chofnodi yng Nghymru o'r blaen? Mae gwlithod môr yn anodd iw gweld, hyd yn oed pan o flaen dy drwyn! Efallai nad yw wedi ymddangos - rhywyn sydd wedi sylwi arni? Ond eto efallai bod hinsawdd yn newid - *who knows for sure?* Yng Nghymru 'da ni ar, neu yn agos, i ffin Ogleddol amryw o greaduriaid morol, ee. y cranc meddal llaw chwith, weli di mohono i'r gogledd o Falltraeth.